DINESYDD
Dydd Mercher
10c
9 Awst
1978

# Rhaid i'r Llys Weithredu


**Yn dilyn camrau derbyniol yr Eisteddfod i wahardd y rheini sy'n mynnu arddangos yn Saesneg o'r maes, gwnaeth rhai o aelodau Cymdeithas yr Iaith arolwg o'r pebyll o gwmpas y maes i weld faint o Saesneg oedd i'w weld.**

O'r 150 o unedau yr ymwelwyd â hwy (nid yw hyn yn cynnwys pebyll yr Eisteddfod ei hun a chyrff swyddogol eraill) yr oedd 73 yn uniaith Gymraeg, 35 yn gyflawn ddwyieithog, 33 yn ddwyieithog mewn ffordd sarhaus (nesa peth i ddim Cymraeg, neu'r Gymraeg mewn safle israddol) a 9, i bob pwrpas, yn uniaith Saesneg (hynny yw, roedd unrhyw beth swyddogol, o bwys ynddynt yn Saesneg).

Teimlai Rhodri Williams, Cadeirydd y Gymdeithas, fod yna gynnydd pendant yn y defnydd o Saesneg ar faes yr Eisteddfod, a hynny'n amrywio o ddeunydd a ddosberthir ar y maes i arwyddion swyddogol. Un garfan rannol gyfrifol am hyn yw'r cyrff swyddogol megis y Swyddfa Gymreig, Cyngor y Celfyddydau, Cynghorau Lleol a'r Amgueddfa Drwy eu bod hwy wedi dod â chymaint o Saesneg i mewn drwy wneud popeth yn ddwyieithog, y mae hynny wedi arwain newydd-ddyfodiaid i'r Eisteddfod i feddwl bod gwneud pethau yn Saesneg yn dderbyniol.

Y corff arall sy'n gyfrifol yw'r Llys (nid pwyllgorau lleol yr Eisteddfod). Mae'r mater yma wedi ei godi'n rheolaidd dros y tair blynedd diwethaf yn y llys a bob bore Llun Eisteddfod gyda swyddogion yr Wyl.

Bydd y Llys yn cyfarfod unwaith eto brynhawn heddiw am 5.15 ac y mae'r Gymdeithas (a phawb arall o ran hynny) yn disgwyl i'r Llys ddod i benderfyniad y tro hwn, heb geisio osgoi'r mater, ynglŷn â gosod amodau pendant rhaid cadw wrthynt wrth logi pebyll ar y maes, hysbysebu ac ati.



HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD DYDDIOL!



# BARDD Y GORON

**Fe gipiodd Sion Eirian, 24 oed, mab y Parch. Eirian Davies a Mrs Jennie Eirian Davies y Goron ar ei ymgais gyntaf. Credai fod y testun, sef dilyniant o gerddi yn portreadu llencyndod yn un hynod addas, oherwydd ei fod yn paratoi cyfrol o gerddi ar bwnc tebyg.**

Nid edrych yn ôl ar lencyndod trwy sbectol oedolyn oedd ei fwriad. Gwell oedd ganddo gofnodi teimladau cyfnod yr arddegau er nad yw'n coleddu'r un syniadau bellach.

Yn y dilyniant soniai Sion am ddeffroad gwleidyddol Mai 1968 heb gyfeirio'n uniongyrchol at y sefyllfa yng Nghymru. Roedd yn amlwg fod y bardd coronog wedi teimlo gwefr yn y seremoni er iddo gyfaddef mai dyna'r tro cyntaf erioed iddo fod yn y pafiliwn. Pwysleisiodd mai ei deulu fu'r prif ddylanwad arno yn hytrach nag unrhyw feirdd eraill.

Cafodd thema cariad le blaen-llaw yn y dilyniant. Credai fod y profiad o golli cariad yn sicr o effeithio'n drwm ar unrhyw fardd. Ond nid tristwch ond llawenydd oedd ar wyneb y bardd ifanc heddiw. Ni allai Sion gelu fod ei freuddwyd wedi ei gwireddu brynhawn ddoe. Ond sicrhaodd bawb nad oedd wedi ceisio am y Gadair. Ddim am fynd am y Dwbl? Wel, na — am nad yw'n gynghaneddwr.

## Mae addewid yn hon!

MERERID DAVIES o LANDAF aeth â'r wobr gyntaf am adrodd 12-15 oed yng nghystadleuaeth agoriadol gweithgareddau ddydd Mawrth. Am 10.30 ar nos Lun 'roedd Mererid ar y llwyfan yn y Pasiant, ac erbyn 9.00 y bore wedyn 'roedd nôl yn ei lle.

'Roedd yn drydedd mewn un gystadleuaeth yn Wrecsam 1977 ac yn Aberteifi 1976 ac mae wedi dod i'r brig eleni.

Mae'n ddisgybl yn Ysgol Llanharri, ac yn ferch i Dr. a Mrs Eurig Davies, Llandaf. Yr ychwanegol at ei gallu i adrodd, mae Mererid yn chwarae'r "cello" ac fe ddaeth o fewn trwch blewyn i'w dewis i'r Gerddorfa Ieuenctid y flwyddyn hon.

Cofiwch ei henw — mae addewid yn llifo drwy weithiennau y groten hon.

# O'R POST

ANNWYL OLYGYDD,

*Yn gyntaf dymunaf egluro nad cwyno am awduron sy wedi cystadlu ar yr adroddiad i ddysgwyr mohonof.*

*Dywedwyd ar y llwyfan dydd Llun gan feirniad, mai diffiniad yr ei 'steddfod o ddysgwr oedd "person sy wedi mabwysiadu'r iaith yn hytrach na'i hetifeddu". Wel, am ddwli pen hewl! Cydnabod yn awr a gadawodd y mwyafrif o blant ysgolion Llanhari a Rhydfelen allan o'r Cystadleuaeth i ddysgwyr mae'n siwr.*

*Fedrwch chi ddychmygu'r sglein fyddai ar yr adrodd dros 25ain petai Bobi Jones, Ffred Ffransis a Billy Raybould wedi cael llwyfan.*

*Felly er mwyn rheswm ac er mwyn gwir ddysgwyr allai'r Genedlaethol, a'r Urdd, roi diffiniad teg o* ddysgwr, *a pheidio a chuddio tu ôl i'r term ail-iaith (ma' Saesneg yn ail-iaith i mi ond dw'i ddim yn ddysgwr).*

*Yn gywir,*

MEIRIONA DAVIES

ANNWYL OLYGYDD,

*Un ffordd o osgoi cythrwfl ar faes yr Eisteddfod yw i awdurdodau'r Eisteddfod sicrhau bod perchenogion pob stondin ac arddangosfa yn gwybod ymlaen llaw bod RHAID iddynt gydymffurfio â'r rheol o ddwyieithrwydd neu Gymraeg yn unig. Gobeithio bydd gwyr Caernarfon wedi dysgu'r wers.*

*Dylid sicrhau bod yr un egwyddor yn dal o safbwynt hysbysebu yn Rhaglen y Dydd. Noder yn gwbl eglur rhag blaen beth yw amodau,* a) *hysbysebu,* b) *arddangos ar y maes, ac oni chydymffurfir, yna gwrthoder caniatad.*

*Ni fydd wedyn angen cythruddo aelodau Cymdeithas yr Iaith i weithredu fel ag y gwnaed ar faes y Brifwyl dydd Llun.*

*Awdurdodau'r Eisteddfod, wynebwch eich cyfrifoleb!*

DAN LYNN JAMES

ANNWYL OLYGYDD,

*"SAESON YDY POBL PENTWYN — i gyd — ia!" Dyna be da ni'n glywed bron bob dydd. Allech* chi *egluro i bawb bod nifer o Gymry Cymraeg yn byw yma. Bu son am ein hysgol feithrin ar y llwyfan Nos Sadwrn, a sefydlwyd Cymdeithas Gymraeg yn ddiweddar.*

*Anghywir ac anheg oedd dywediad ar y teledu Nos Iau diwetha — mae 'na bobl Pentwyn sy'n rhoi croeso cartrefol Eisteddfodwyr o bob rhan o'r wlad, ac mae llawer iawn o'n di-Gymraeg hefyd yn helpu achos y Brifwyl.*

*Rhowch chwarae teg i Bentwyn.*

*Yn gywir,*

CLEIF WARLOW
Pentwyn, Caerdydd.

## Lloegr Fach!

*Un o'n gohebwyr yn eistedd yn y Pafiliwn yn gwylio'r Coroni, a Sais yn eistedd wrth ei ochr, yn dangos diddordeb mawr yn ymhob peth. Ein gohebydd yn gofyn iddo a oedd yn deall Cymraeg — nag oedd, meddai, roedd yn byw yn St. Albans a doedd dim cyfleusterau dysgu Cymraeg yno. Ar y gair, dyma'r ferch oedd yn eistedd o'i flaen yn troi ac yn dweud "My friend has a Welsh class in St. Albans" — a dyma drefnu yn y fan a'r lle i'r dyn gael gwersi. Rhyfedd bod Lloegr mor fach!*

## CLECS ?&!?&!

Dwy ddynes yn eistedd ym Mhabell y Cymdeithasau fore ddoe yng nghyfarfod UCAC. Y pwnc oedd Dyfodol Addysg Ddwyieithog yn Ne-Morgannwg a Gwent gyda T. Raymond Edwards a Ben Harries yn traethu ar y pwnc. Ar ôl rhyw hanner awr, dyma'r wraig nesaf at Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC yn troi ato ac yn gofyn, mewn cryn benbleth, "Esgusodwch fi, ond hon *yw* Theatr Fach y Maes ynte?"

Mae dylanwad y *Dinesydd Dyddiol* yn treiddio i bob cwr, cornel a chylch. Yn seremoni'r Orsedd fore ddoe, Mered, un o sylfaenwyr *Y Dinesydd* oedd yn canu gweddi'r Orsedd tra safai Golygydd y Papur Arall yn ddistaw.

## Pêl-droedio

Bydd Dawns Fawreddog ffwtbolwyr Cymraeg Caerdydd yn y T.A.s nos Wener. Dewch yn llu i weld y tîm enwog ac anffit hwn yn dawnsio i sŵn grwpiau gorau Cymru. Newid llwyr o nosweithiau "Tito" a "Top Rank" bwy'i gilydd.

## Teyrnged arall i J.M.

**Marciau uchel iawn i blant Rhydfelen a Llanharri am gyflwyno'r Pasiant yn y Pafiliwn ar nos Lun, ond fe fyddai cwtogiad o dri-chwarter-awr wedi gwneud y byd o wahaniaeth i fwynhad y noson. Y deyrnged annisgwyl i J.M. Edwards Y Barri yn yr olygfa ar y peiriannau oedd pinacl y noson, a diolch byth i ni aros tan y diwedd a chael ein codi i'r entrychion gyda'r diweddglo. Cannoedd ar gannoedd o blant yn llenwi'r llwyfan a chanu gwefreiddiol y ddwy ysgol. Plant y cylch bob un, a phob un a'r Gymraeg yn iaith gyntaf — yn cadw i'r oesoedd a ddel y glendid a fu.**

# COLOFN

## Shân Emlyn

**O wybod am y gwaith caled sydd wedi mynd ymlaen yn y ddinas 'ma er dwy flynedd ac o feddwl yn gynharach ei fod o wedi dwyn ffrwyth, mi roeddwn i'n drist iawn nos Lun.**


Yr un tân sydd yn fy nghalon i ag a sydd yng nghalon pobol ifanc gwladgarol Cymru. Ond cofier, mae tân sydd wedi'i huddo yn para lawer yn hwy na choelcerth.

Rwy'n ofni bod gweithred Cymdeithas yr Iaith dydd Llun wedi ychwanegu hoelen go fawr yn arch yr iaith Gymraeg. Tra roedd y difrod i stondin y Rheilffyrdd Prydeinig yn digwydd roedd plant ysgolion Rhydfelen a Llanhari yn cael eu rihyrsal ola cyn y pasiant. Oni bai am y di-Gymraeg, fyddai 'na ddim Rhydfelen, Llanhari na Glan Taf, gan fod oddeutu 90% o'r plant rheiny yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Mi wn i o brofiad pan oeddwn yn gweithio i Fudiad Ysgolion Meithrin cymaint o amynedd a dyfalbarhad a oedd eisiau i ddarbwyllo rhieni di-Gymraeg i anfon eu plant i Ysgolion Meithrin, Cynradd ac Uwchradd Cymraeg.

Ar yr un pryd ddydd Llun, roedd Gwilym Roberts yn areithio — brenin y pontwyr. Mi wn i bod yr ifanc â'u calonnau'n llosgi'n eirias dros y Gymraeg, felly ninnau, lawer ohonom, sy'n hŷn — ond mae 'na ddihareb y talai inni ei chofio — "Os na bydd gall, bydd gyfrwys."

# POBOL CWMDREWI





# DYDDIADUR GWRAIG TŶ

Ond cyn hynny — nos Lun a saga'r car. Roedd 15,000 yn yr Eisteddfod ddydd Llun a rhywbeth tebyg o geir, yn ôl pob golwg yn y maes parcio. Ymhle y gollyngais i fy nghar am 8.45 y bore? Dim clem. Gosod y sefyllfa ger bron bois yr Urdd a chael cydymdeimlad a chymorth. Cwestiynau call — pa frid o gerbyd, etc? Anobaith yn drysu fy nghof am hynny hefyd. A oedd ambell ael yn dechrau codi? Synnwn i ddim yn wyneb fy mherfformans i! Beth bynnag, dod o hyd i'r gwalch o'r diwedd, diolch i amynedd un o'r gweithiwrs. A fel bonws bach, mi ges hanes geni ei ferch yng nghyntedd ei gartre rai misoedd yn ôl. Difyr dros ben.

Cyrraedd adre'n rhy hwyr i grafu a berwi tatws. Sglodion eto. Holi faint oedd wedi mynd lawr corn gwddf y mab eisoes yn ystod y diwrnod.

Fo: Dim
Fi: Gest ti fwyd o gwbl?
Fo: Do, lot.
Fi: Be?
Fo: Tair dough-nut a bag o Murray-mints.

Cyrraedd y Theatr Newydd erbyn ail act drama Gwenlyn Parry felly yn gwbl anghymwys i ddweud na sgrifennu unrhyw sylwadaeth ddilys. *Ond*, os ydy ymateb emosiynol, greddfol yn cyfrannu i fesur llwyddiant, yna fe gafodd yr awdur lwyddiant aruthrol — bu o leiaf tair gwraig yn llefain yn ystod yr act olaf. Peth rhyfedd oedd gwisgo sbectol dywyll am ddeg o'r gloch y nos wrth gerdded ar hyd Park Place!

LLONGYFARCHIADAU i Dan Lyn James ar ei benodiad yn Drefnydd Iaith Ceredigion. Ar hyn o bryd mae'n ddarlithydd ymchwil yn y gyfadran Addysg, Prifysgol Aberystwyth.

Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi.

# La Dolcis Vita

**Cafodd Vaughan Hughes, cyflwynydd hynaws *Y Dydd* dipyn o sioc y diwrnod o'r blaen yng Nghaerdydd. Roedd wedi rhoi ei fryd, ers amser maith, ar bâr neilltuol o sgidiau yn siop Dolcis, Stryd y Frenhines ond pan geisiodd dalu amdanynt â siec Gymraeg, fe'i gwrthodwyd. Meddai Vaughan, "Mewn wyth mlynedd o fyw yng Nghaerdydd, dyw hynny 'rioed wedi digwydd i mi o'r blaen."**

Galwodd am weld y rheolwr, ond ymateb hwnnw oedd bod Vaughan yn gwbl afresymol. Dywedodd fod llawer o bobl yn dod a cheisio talu am nwyddau â sieciau Cymraeg yn ei siop ef ond, ar ôl sgwrs fach, roeddynt yn ddieithriad yn barod i weld rheswm ac ysgrifennu eu sieciau yn Saesneg!


Cerddodd Vaughan allan o'r siop yn droednoeth (wel, bron) ac yn berwi. Am agwedd gan siop, ym mhrifddinas Cymru, ar drothwy'r Brifwyl. Ond, yn waeth na hynny, pwy yw'r Cymry gwachul sydd wedi bod yn rhoi mewn i dwpdra Dolcis ar hyd y blynyddoedd? Cofiwch enw'r siop — Dolcis, Stryd y Frenhines — a CHADWCH DRAW!

# Pwy yw'r CEFNOGWR?



**Mae cystadleuaeth "Pwy yw'r Cefnogwr?" yn dal i ddenu llif cyson i Babell y *Dinesydd Dyddiol* i geisio dyfalu pwy yw'r person o dan yr het fowler â'i gefn (neu â'i chefn) atom. Dyma Gefnogwr newydd i chi heddiw: wyddoch chi pwy yw e? Dewch â'ch atebion i'r babell (ger llaw'r Babell Lên) — het fowler y *Dinesydd Dyddiol* yn wobr i'r cyntaf i roi'r ateb cywir.**

**Daeth yr ateb cywir ddoe yn fore iawn, cyn deg o'r gloch, gan Rhisiart Williams o Gaerdydd. Llongyfarchiadau iddo — a dyma Gwynfor Evans, Cefnogwr dydd Mawrth, yn codi ei het arnom!**



Un o'r pebyll hyfryta ar y maes yw Pabell Mudiad Ysgolion Meithrin, ac un o bleserau'r wythnos yw gweld plantos Gwynedd a Gwent, Caerfyrddin a Chaergybi yn adolygu'r arddangosfa o waith Cylchoedd Meithrin Caerdydd. Roedd cael Rhys Carter yn dywysydd oddi amgylch y babell yn brofiad i'w gofio! Os am bwff o awyr iach pan fo problemau'r genedl yn eich trechu — piciwch draw am dro.

gan Barri Morgan a P.R.Penarth




(I'w barhau)

### ER COF AM J.M. EDWARDS

**Tawodd d'ymadrodd, a mud — yw'r heniaith**
**A'r gynghanedd hefyd;**
**Llawn o'r ust yw Llanrhystud,**
**Tawelach bellach yw'r byd.**

ALAN LLWYD

**Ni allaf byth gofio am J.M. Edwards heb i ddau enw arall lithro i'm meddwl gydag ef, sef Prosser Rhys a gollwyd yn anterth ei ddyddiau a Ben Hopkins sydd eto'n fyw a newydd gyhoeddi casgliad o'i gerddi — trindod o feirdd cefn gwlad Sir Aberteifi.**

Bu gyrfa'r tri yn ddigon gwahanol i'w gilydd. Wedi siocio tipyn ar ddarllenwyr y dauddegau â'i bryddest goronog fentrus, aeth Prosser yn ei flaen i fod yn olygydd graenus i'r *Faner*. Arhosodd Ben Hopkins yn ei hen fro i ffermio a barddoni. J.M. a fentrodd bellaf ym mhob ystyr — aeth yn athro i'r Barri, ac er ei holl glod i ardal ei febyd, yn y Barri yr arhosodd weddill ei oes.

Gŵyr pawb am ei gampau eisteddfodol — ennill y goron deirgwaith am gerddi pur nodedig — yn enwedig y bryddest 'Peiriannau' y clywyd cymaint o adrodd arni. Honno, mi dybiaf, oedd ei 'magnum opus', a honno sydd yn datguddio mwyaf o'i grefft a'i grebwyll fel bardd, gan gyfuno'r grefft farddol a ddysgodd gartref yn ei febyd, â'i brofiad diweddarach o fyw mewn cymdeithas ddiwydiannol.

Yr oedd yn fwy cyfoes ei acen na'r rhelyw o feirdd ac wedi llwyddo'n well na llawer i briodi celfyddyd y bardd a phrofiadau y byd modern gan ddefnyddio iaith Llanrhystud i ddisgrifio bywyd y Barri. Chwith yw ei golli o'n plith, ond cofir yn ddiochgar am ei gyfraniad i'n llenyddiaeth.

**TILSLI**

# ENGLYNION

Dic Jones, Blaenannerch gipiodd wobr yr Englyn eleni. Dyma'r englyn buddugol.

CLAWDD OFFA
Nid wal sy'n rhannu dwy wlad — na dwrn dur
Rhyw hen deyrn anynad
Nid rhith o glawdd unynad
Nid tyweirch ond dyhead.

Roedd prif englynwr Caerdydd, Arfon Williams, yn agos iawn i'r brig — ac roedd yn reit agos i Dic Jones gyda'i gywydd i 'Parc yr Arfau'. Dyma'i englyn ef:

Nid terfyn mo'r tywyn tawel — i'r môr
O'r Mers; yn anochel
Yr un un a fu'n ei hel
Ddaw â'i ymchwydd i'w ddymchwel.

# Llên yn y Dref

**Dyma gyfarfod llenyddol cyffredinol cyntaf y Babell Lên a chafwyd rhyw awr a hanner hwylus yng nghwmni'r tri llenor T. Glynne Davies, Dafydd Rowlands a Rhydwen Williams ddydd Llun.**

T. Glynne a ddechreuodd; T. Glynne a fu o bosib ar grwydr fwy na'r rhan fwyaf os nad pawb o'r clerwyr (bu'n byw mewn 19 o dai mewn 28 mlynedd!). Iddo ef, mae sefyllfa'r llenor mewn dinas yn wahanol i'r hyn ydyw mewn pentref neu gymdeithas wledig, glos. Roedd gwrthrychedd yn fwy posibl, ac ar yr un pryd, roedd bywyd amlddelwog y ddinas yn helaethu profiad y llenor. Ar yr un pryd, dangosodd yn y cyfeiriad a wnaeth o un o'i gerddi yn "Hedydd yn yr Haul" mor arhosol oedd y profiad o Lanrwst ei febyd arno.

I Ddafydd Rowlands, y profiad cynnar hwn, y fagwraeth sylfaenol oedd y peth pwysicaf, waeth ble y byddai'r llenor yn ysgrifennu. Honnodd ei fod yn "casáu Caerdydd", honaid a dynnodd ateb (eitha bonheddig) oddi wrth y Cadeirydd, Elvet Thomas, sydd yn ddinesydd Caerdydd i'r carn, wrth gwrs.

Gan Rhydwen Williams, cawsom arolwg gweddol eang o fewn terfynau'r amser o'r hyn a olygai llenydda mewn gwahanol sefyllfaoedd i nifer o lenorion, a'r neges gref iawn ganddo ef oedd fod pob peth yn destun teilwng o lenyddiaeth, ac na ddylid cefnu ar y dref a diwydiant a'u haerwch i fynd i ryw fath o Afallon wledig. "Nid rhyw ganolfan academig a chynganeddol ar gyfer deallusion yw llenyddiaeth."

Rhoddodd enghraifft lwyddiannus o'r gwrthwyneb, y Prifardd J.M. Edwards a fu farw yr wythnos diwethaf. Rhaid i lenyddiaeth ddelio â bywyd yn ei gyfanrwydd, nid gwneud (yng ngeiriau'r glowr) yn un fath â'r Bwrdd Glo ar adeg ymweliad y Cwin a phwll glo Aberdâr: "Rhaid i ni bapuro'r gob, rhoi carped ar hyd y ffas, ac os bydd amser yn caniatau, fe wnawn ni weitwasio'r blydi glo!"

# Blodeugerdd Englynwr o fri

Mae 'Englynion Arfon', cyfrol gynta o farddoniaeth T. Arfon Williams, yr Eglwysnewydd, Caerdydd, ar werth. Mae Cymru benbaladr yn croesawu'r casgliad hwn o ddau gant a saith o englynion, dwy soned a dau hir a thoddaid. Mae Tom Parry-Jones, Malltraeth, Ynys Môn yn canmol y gyfrol i'r entrychion ac wrth ei fodd gyda'r englyn "Blodau'r Eithin a Chlychau'r Gôg". Bodlonodd yr englyn dilynol y Parch. J. Eirian Davies, Yr Wyddgrug, yn eisteddfod y Talwrn, Ynys Môn:

*Daw pererin a flino-i westy*
*I ddistaw ymlacio*
*A chael yn ei glydwch o*
*Win solas wrth noswylio*

Rwy'n hynod falch fod gan Ynys Môn ran yn natblygiad y bardd hwn! Does dim dwywaith nad bardd ydyw Arfon sy wedi gwirioni ar englyna. Gan fod Alan Llwyd wedi cyflwyno camp fawr Arfon ym myd yr englyn a chan fod portread byr ohonno ar gefn y gyfrol gwell imi sôn am yr agwedd o'i waith sy'n fy mhlesio fwyaf. Gan mai'r englyn sy wedi mynd â bryd Arfon hyd yn hyn rydw i am ei alw'n englynwr crefyddol. Onid yw ei englyn i 'Mair' — buddugol yng nghystadleuaeth *Y Cymro* mis Rhagfyr diwethaf yn cadarnhau hynny?

*Heno datgelwyd i minnau-paham*
*Y mae pen y brynian*
*Oll yn oll yn llawenhau—*
*Mae'r achos yn fy mreichiau*

Gwych o englyn ffres. Dimensiwn byw ydi crefydd i'r bardd. Nid rhywbeth traddodiadol sy wedi cael ei gyfyngu i'r gornel i farw ydyw:

*Mae Un sy'n fwy na meini*
*Arno Ef mae'n hyder ni*

Yn ei englyn "Llyn Bethesda" mae wedi cronicio'n dwt erfyniad llawer un am i ni ddod at ein coed. I bwy bynnag sy wedi teithio i Gaerdydd drwy'r Cymoedd a thristau wrth weld dwsinau o gapeli yn ddolur i'r llygaid. Pwy na welodd y ddau gapel ar draws y ffordd i'w gilydd ym Merthyr Vale a meddwl ei bod hi ar ben arnom? Nac wylwn, mae Englynion Arfon ar gael i ni weld:

*Nos yn ddydd, a'n ffydd yn ffaith!*


Mae'n ddyletswydd ar gyfeillion y bardd yn awr i'w roi ar hwyl i gyfansoddi ar fesurau eraill. Does bosibl nad oes un neu ddau fesur ymhlith y pedwar mesur- ar- hugain a fydd wrth fodd y bardd treiddgar hwn. Beth am 'gywydd Arfonaidd'?

DAFYDD ISLWYN

*NOS WENER, 11 AWST*
*am 7.30*
*yn*
*Eglwys Gadeiriol Babyddol,*
*Heol Siarl,*

CWMNI DRAMA
YSGOL GYFUN
RHYDFELEN

YN CYFLWYNO
**CWYMP AC**
**ADFERIAD DYN**


Theatr yr Ymylon
yn
Y Pembroke Terrace
Churchill Way, Cardiff
Rhydwen Williams fel Daniel Owen
yn darllen
"HUNANGOFIANT RHYS LEWIS"
Llun, Awst 7fed — Dydd Sadwrn Awst 12fed. 7.45p.m.
Tocynnau £1.00. Plant 50c.
Swyddfa tocynnau, Caerdydd 372231

# LLYS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cefnogwch waith yr Eisteddfod
Ymunwch â chorff llywodraethol
y Brifwyl

Prynwch gyhoeddiadau'r Llys:
YR EISTEDDFOD
gan
Hywel Teifi Edwards
(Pris £1.75)

Cyfrol Medal Ryddiaith Wrecsam:
TRIPTYCH
gan
R. Gerallt Jones
(Pris £1.00)

**FFURFLEN AELODAETH**

Dymunaf fod yn aelod o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol

ENW: ..........................................................................

ENW LLAWN:

CYFEIRIAD: ..........................................................

..................................................................................

..................................................................................

Amgaeaf danysgrifiad o:

£2 (lleiafswm) am aelodaeth blwyddyn
£20 am aelodaeth oes

**Anfoner at:** D. Hugh Thomas, Ysgrifennydd Aelodaeth, Llanfaes, 50 Church Road, Baglan, PORT TALBOT.

**NEU:** GADEWCH YR AMLEN YN *Y BABELL YMHOLIADAU* AR Y MAES.

# UCAC

## Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Yr unig Undeb athrawon sydd 100% o blaid Cymreictod. Yr unig Undeb Llafur annibynnol sydd â'i Bencadlys yng Nghymru ac sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru. Manylion pellach oddi wrth: Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ. (Ffôn: 494692)

# Arfordir Meirion yn arwain y byd!

**Cyhoeddodd y Bwrdd Cyfathrebu ar Faes yr Eisteddfod heddiw (dydd Mawrth) ei fod yn cychwyn system delathrebu hollol newydd ym Mhrydain ac mai'r lle cyntaf i elwa fydd arfordir Meirion.**


Dan y gyfundrefn newydd dileir yr hen wifrau copr ac yn eu lle bydd ffibrau optegol yn trosglwyddo negeseuon ar y ffôn. Un o brif fanteision y system newydd yw'r nifer enfawr o wahanol sgyrsiau sy'n gallu cael eu trosglwyddo ar un wifren ar yr un pryd — miliynau ar filiynau. Oherwydd cost gynyddol copr mae'r gwifrau newydd hyn llawer yn rhatach ac yn gallu cael eu cynhyrchu ym Mhrydain. Disgwylir y bydd y system newydd yn gweithredu'n llawn erbyn 1980.

# Trobwynt i'r Pab

Dwy leian yn wylo wrth glwyd mynediad y Steddfod. Wylo am y Pab, ebe I.B. Griffiths ar HTV fore Llun. Wrth eu hymyl roedd merch ifanc yn hurjio copiau o'r Efengylaidd "Trobwynt". Beidio mai crio oeddynt am fod pobl ifanc yn credu'r ffasiwn rwtsh a welir yn y cylchgrawn ofergoelus hwn?

# Cyfraniadau

**Casglodd ardal Plasnewydd gyfanswm o £222-00 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, yn bennaf drwy gasglu o dy i dy. Yn ogystal â'r ymdrech sylweddol hon gwerthwyd gwerth bron £60-00 o docynnau raffl. Llongyfarchiadau i Blasnewydd. Diolch hefyd i Gapel Ebeneser, Caerdydd am eu rhodd hael iawn o £100-00 i'r Eisteddfod.**




## Tân yn y Môr
Cyfres antur i'r plant



**Dim ond heddiw**



Cyfres antur i oedolion
Ar gyfer Hydref/Gaeaf 1978

HTV CYMRU WALES



## RECORDIAU NEWYDD

**Recordiau Sain I'r Plant**

DAFYDD IWAN AC EDWARD

1. FUOCH CHI RIOED YN MORIO (Sain 1005D)
2. YN ÔL I GWM RHYD Y RHOSYN (Sain 1110D)
3. CULHWCH AC OLWEN (Sain 1030D) Dwy chwedl wedi eu dramateiddio i blant.

*Ar gaset hefyd* (1–3)

4. MIRI MAWR! (Sain 49E)
5. TELIFFANT! (Sain 62S)
6. PLANT LLANBÊR — Côr plant Llanberis yn canu'r ffefrynnau (Sain 1027D)

*Ar gael ar faes yr Eisteddfod ac yn eich Siop Leol, Sain, Penygroes, Caernarfon (Penygroes 732).*

sain

# RHAGLEN HEDDIW... ...A HENO

| | |
|---|---|
| **Y PAFILIWN** | 2.00 Araith Llywydd i y Dydd : John Morris<br>2.30 Y FEDAL RHYDDIAITH<br>5.05 Cor Pensiynwyr |
| **Y BABELL LÊN** | 11.00 Y Ddarlith Lenyddol : "Baich y Beirdd" Hywel Teifi Edwards.<br>12.30 Gwobr Daniel Owen beirniadaeth y nofel.<br>4.00 Ymryson y Beirdd Ceredigion v. Nant Conwy. |
| **Y THEATR FACH** | 10.30 Merched y Wawr: "Hil a Hwyl y Cestyll"<br>12.00 Y Ddrama Deledu: Coluro (Cissian Rees)<br>2.00 Theatr Caricature: ABC Caerdydd<br>5.15 Cyfarfod Llys yr Eisteddfod |
| **Y STIWDIO GERDD** | 10.30 Trafodaeth ar gyngerdd dydd Mawrth.<br>1.00 Gwerthu tocynnau<br>2.00 Karl Orff<br>3.00 Cyfarfod Teyrnged i Grace Williams |
| **PABELL Y CYMDEITHASAU** | 10.00 Cymdeithas Theatr Cymru<br>11.00 Mudiad Ysgolion Meithrin<br>12.00 Cymdeithas Carafanwyr Cymru<br>2.00 Cymdeithas Cerddorion Cymraeg |
| **PABELL Y DYSGWYR** | 2.00 Dyfodol yr Wlpan (Gwilym Roberts) |

| | |
|---|---|
| **Y SHERMAN 7.30** | EQUUS<br>Coleg y Drindod, Caerfyrddin. |
| **YR ARENA (Sherman) 7.15** | PRY YN Y PREN<br>Cwmni Theatr O. |
| **Y THEATR NEWYDD 7.30** | DIC PENDERYN<br>Theatr yr Ymylon. |
| **THEATR BUTE Coleg Cerdd a Drama 7.30** | BLODEUWEDD<br>Cwmni Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. |
| **Y PAFILIWN 7.30** | Cyngerdd gan Gorau plant ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd Gerddorfa Symffoni Gymreig y BBC. |
| **TITO'S 10.30** | Bara Caws<br>HANES LLENYDDIAETH GYMRAEG |
| **ERAILL** | Top Rank. 10.00<br>CAWL CAERDYDD<br>Hergest<br>Edward H. Dafis<br>* * * *<br>Eglwys Babyddol Dewi Sant, Heol Siarl 7.30.<br>CWYMP AC ADFERIAD DYN CWMNI YSGOL RHYDFELEN |
| **CAPEL PEMBROKE TERRACE, CHURCHILL WAY** | HUNANGOFIANT RHYS LEWIS, Theatr yr Ymylon 7.45 |
| **COLEG CYNCOED** | Consort Prês Cymreig |


# Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg

*GWASANAETH I GYMRU*

**Cynhyrchu Ffilmiau**
**Dosbarthu Ffilmiau**
**Y Sinema Deithiol**
**Cyfathrebu Cymdeithasol (GWELD)**
**Cefnogi talentau newydd**
**Cyfleusterau cynhyrchu annibynnol**

*Ysgrifennwch am fanylion i'r:*
*Bwrdd Ffilmiau Cymraeg,*
*Ffordd y Coleg,*
*Bangor.*
*Ffôn: (0248) 4687.*

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH SY23 3BU**

**Cyhoeddiadau cyson y Llyfrgell**

- Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru — sy'n ymddangos bob hanner blwyddyn. Tanysgrifiad blynyddol o 1979 ymlaen — £3.00.
- Rhestr Llawysgrifau sydd yn y Llyfrgell. Prisiau rhwng 20c a 40c y Rhan.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru — Crynodeb Byr o'i Hanes a'i Gweithgareddau. Pris 10c.
- Bibliotheca Celtica — cofrestr cyhoeddiadau sy'n berthnasol i bobl a ieithoedd Cymru a'r gwledydd Celtaidd. Prisiau yn amrywio.

**Llawer o hen gyhoeddiadau ar werth, gan gynnwys —**

- Cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol — amryw o flynyddoedd rhwng 1888 a 1942 25c a 15c
- Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg (1912) 20c
- Rhestr o Lyfrau a argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoed 1763 a 1807 (1916) 25c
- Rhestr o Lyfrau gan y Parch. William Williams Pantycelyn a argraffwyd rhwng 1744 a 1800 (1918) 25c
- 'Series of Old Welsh Texts', a olygwyd gan J. Gwenogfryn Evans:
  Poetry by Mediaeval Welsh Bards 55c
  Llyfr Iob 10c a 5c

Y mae cludiad yn ychwanegol at y prisiau uchod. Gellir cael manylion holl gyhoeddiadau'r Llyfrgell drwy anfon a y **Rhestrau Cyhoeddiadau** at Ysgrifennydd y Llyfrgell yn y cyfeiriad uchod neu ffonio 0970/3816-9, estyniad 206.


# A oes gennych blentyn dan oed ysgol?

A hoffech i'r plentyn dderbyn addysg feithrin Gymraeg?

Os nad oes gennych wybodaeth am Gylch Meithrin Cymraeg o fewn cyrraedd i chwi, anfonwch air atom, ac fe gewch y manylion am Swyddog Datblygu eich ardal, ac am y Cylch Meithrin agosaf i'ch plentyn ei fynychu.

*Anfoner at:-*
*Y CYFARWYDDWR,*
*MUDIAD YSGOLION MEITHRIN,*
*CANOLFAN YR URDD,*
*HEOL CONWY,*
*CANTON,*
*CAERDYDD.*
*FFÔN: 36113*

**CRASBOETH o'r LOLFA!!**




**Nofel antur/dditectif orau'r ganrif yn Gymraeg. £1.95**




**Cant o dafarnau gorau Cymru gyda llun a malu cachu am bob un. £1.25**





**Y Llewod diweddara! 85c yr un**

**Mynnwch ein catalog rhad.**

**Y Lolfa**

Talybont Ceredigion ffôn 304



**MISTAR URDD**
Aelod enwoca'r Urdd
ac arwr plant Cymru

Galwch heibio i'w weld
yn **SIOP MISTAR URDD**
**ar faes Eisteddfod Caerdydd**

CYMDEITHAS
# TAI GWYNEDD

- Erbyn diwedd 1978, bydd y Gymdeithas elusennol hon wedi darparu 27 o gartrefi i deuluoedd ym mhentrefi Gwynedd.
- Gellwch ein helpu i ddarparu mwy drwy roi benthyg arian i'r Gymdeithas ar log o 6% — neu'n ddi-log.

*Manylion pellach oddi wrth:*

*Y Trefnydd, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.*

Croeso i babell
## Cymorth Cristnogol
i weld......
Arddangosfa gan Ysgolion Cyfun Llanhari a Rhydfelen
ac Ysgol Howells, Caerdydd;
hefyd luniau o gynlluniau â gefnogwn.
i brynu......
Bathodynnau, Beiros, Defnyddiau a Chardiau Nadolig. Dewch heibio am 'baned o goffi yn ystod yr wythnos.
*SAFWN DROS GYFIAWNDER A DANGOSWN DOSTURI TUAG AT EIN CYD-DDYN.*

*Urdd Gobaith Cymru*
Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno
**RIFIW**
**'NEB YN DEILWNG'**
ARENA
THEATR Y SHERMAN
Nos Iau Awst 10
Nos Wener Awst 11
Nos Sadwrn Awst 12
am 10.30 o'r gloch
**MYNEDIAD £1**
Tocynnau ar gael o:-
Babell y Ganolfan ar y maes

***GWERIN***
Uned 74 ar y maes
Cofiwch alw

Siop:-
102 Heol Albany
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn: 496615

Elwyn Williams (Athro Coleg Cerdd a Ddrama Cymru, a chyn fyfyriwr Academi Cerddorol Frenhinol, Llundain, ac Academi Gerddorol Sant Cecilia, Rhufain) yn derbyn Disgyblion mewn piano, llais, arwain (corawl a cherdd-orfaol), a chyfeilliant. Hefyd hyfforddiant am weithgareddau arbennig e.e. eisteddfodau, a chyngherddau etc. Telerau rhesymol.
Am ragor o fanylion ysgrifennwch neu ffoniwch:
Elwyn Williams,
41 St. Benedict Cres.,
Heath, Caerdydd.
Ffôn: 611435.

**Siop Eifionydd**
Porthmadog

Pob math o
offeryniau cerdd.
Llyfrau a recordiau.
Ffôn: (0766) 2795

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**(Argraffwyr),**
**Ffôn: (0222) 396262**

# Gwneud hanes

Mae Cwmni Cyhoeddi Cleglen Cyf yn falch o fod wedi darparu'r modd i alluogi papur dyddiol Cymraeg cyntaf Cymru, *Y Dinesydd Dyddiol*, i gael ei argraffu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**CLEGLEN + AP DAFYDD**

# Y BRIFWYL O'R BRIFDDINAS

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes Eisteddfod Caerdydd i Gymru benbaladr.

POB BORE o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 10a.m. bob dydd, dwy awr o'r Wyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

Y PRIF SEREMONÏAU — dydd Mawrth Y Coroni, dydd Iau Y Cadeirio, dydd Gwener Croesawu'r Cymry Alltud — oll ar HTV Cymru.

PENAWDAU'R NEWYDDION am 1.20p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes y Brifwyl.

Y DYDD a REPORT WALES. *Y Dydd* o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6p.m. *Report Wales* am 6.18p.m.

RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD bob nos am 6.30p.m. o nos Fawrth hyd nos Wener, ac ar nos Sadwrn am 5.55p.m.

Y GADAIR A GWOBR GOFFA DANIEL OWEN — Caiff HTV Cymru yr anrhydedd o gyflwyno'r gadair a hefyd gwobr Goffa Daniel Owen yng nghystadleuaeth y nofel.

YR WYTHNOS. Rhifyn arbennig o'r *Wythnos* nos Lun yr Wyl am 8.30p.m. yng nghwmni Cenwyn Edwards.

AR Y MAES — gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell y Plant, taflen y dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni — cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

Ymunwch â ni

YN DATHLU DENG MLYNEDD O WASANAETH
o Faes y Brifwyl ac o'r Ganolfan Deledu
yng Nghaerdydd.

HTV
CYMRU WALES

# CROESO I FAES YR EISTEDDFOD
## OND COFIWCH AM Y PETHAU A GYNHELIR MEWN MANNAU ERAILL

**Y THEATR NEWYDD**

Nos Lun, Nos Fawrth } Y TŴR (Gwenlyn Parry) Cwmni Theatr Cymru

Nos Fercher, Nos Iau } OPERA ROC — DIC PENDERFYN
Cwmni Theatr yr Ymylon

Nos Wener, Nos Sadwrn } PASIANT CYFLWYNO CAERDYDD
Plant Ysgol Bryntaf

**THEATR BUTE**
(Coleg Cerdd a Drama)

Nos Lun, Nos Fawrth, Nos Fercher } BLODEUWEDD (Saunders Lewis) CWMNI COLEG ABERYSTWYTH

**COLEG CYNCOED**

Tri Chyngerdd Siambr
(5.00p.m.)
Mawrth: Offerynwyr Coleg Cerdd Cymru
Mercher: Consort Pres Cymreig
Iau: Côr Telynau Ann Griffiths

**LLYFRGELL SALISBURY**
**(Coleg y Brifysgol)**

DRWY WYTHNOS YR EISTEDDFOD
ARDDANGOSFA O LYFRAU PRIN

**THEATR Y SHERMAN**

Nos Lun —, Nos Fawrth } Y LLINYN ARIAN (ffilm)

Nos Fercher — EQUUS (Peter Shaffer)
Cwmni Coleg y Drindod

Nos Iau — CYSTADLEUAETH ACTIO
Cwmni Heol y Crwys
Cwmni Llwyndyrus
Cwmni'r Dewin

Nos Wener, Nos Sadwrn } NOS YSTWYLL (cyf. J.T. Jones *o Twelfth Night.*)
Cwmni'r Eisteddfod

**THEATR YR ARENA**
(yn adeilad y Sherman)

Nos Lun — RHWNG BYW A MARW
(detholion o ddramâu Samuel Beckett)

Nos Fawrth, Nos Fercher } PRY YN Y PREN
(rhaglen amrywiol yn cynnwys TRI CHYFAILL gan John Gwilym Jones)

Nos Iau, Nos Wener, Nos Sadwrn } THEATR BYPEDAU
Jane Phillips

# Chwedl yn troi'n realiti

**Cei Caernarfon 1979. "Bydd y cwch nesaf yn gadael y Cei am drip i Nant — gwrtheyrn ymhen..." Na, nid yw gohebydd Y DINESYDD wedi bod yn cysgu ac wedi breuddwydio am Fflat Huw Puw ac ati. Wedi bod yn gwrando ar Dan Lyn James yn rhoi amlinelliad o'r modd y troir Nant Gwyrtheyrn o fod yn sgerbwd i fod yn bentref llawn bywyd, llawn ynni fel Canolfan Dysgu Cymraeg.**

Addawodd y caem fynd ar gwch o Gei Caernarfon adeg Eisteddfod '79 i weld Nant Gwyrtheyrn. Ei apel oedd am i ni, bawb ohonom, sy'n Gymry Cymraeg i ymroddi i wneud pob ardal yn un sy'n rhoi ei lle i'r Gymraeg ac i'r di Gymraeg fel y bo i ni gyfannu ein pobl. Dyma rai (a dim ond rhai) o'i syniadau: cael dosbarthiadau er mwyn gloywi Cymraeg y rhai hynny ohonom sy'n teimlo nad yw ein hiaith yn ddigon da; rhoi offer cyfieithu cyfredol mewn neuaddau pentref; paratoi taflen i ddangos natur yr ardal — ei hagwedd at yr iaith a chrefydd fel bo dewis i'r sawl sy'n meddwl dod i fyw i'r ardal neu beidio os gallant dderbyn agwedd yr ardal; cynnal dosbarthiadau mewn ysgol ac yna cael ail sesiwn gymdeithasol lle bydd y Cymry'r ardal yn dod at y dysgwyr er mwyn integreiddio'r ddwy gymdeithas yn un glos.

Byrdwn yr araith oedd am i ni adeiladu ar y sail sydd bellach wedi ei osod, o geisio cael Cymraeg ar dafod pawb.





# BWYD Y BEIRDD



*Parhâd o'n cyfres ar dai bwyta Caerdydd a'r cylch.*

GIBSONS, Heol Romilly (agos i Ganolfan yr Urdd). Bwyd Ffrengig gorau yng Nghaerdydd. Gwinoedd dethol. Rhaid archebu bord ymlaen llaw. Prydau o wahanol daleithiau Ffrainc Mawrth, Mercher a Iau. A la carte Gwener a Sadwrn. (****)

Y MEDELWYR (Harvesters), (Heol Pontcanna, ger Heol yr Eglwys Gadeiriol.) Bwyd Seisnig wed'i baratoi gan resterateur o Sicilia sy'n siarad Cymraeg! Mae'r bwyd a'r gwin yn arbennig o dda, ond mae'r lle yn haeddu ymweliad er mwyn clywed Cymraeg ag acen Sicilaidd arni.

BWYTY SINEAIDD GLANYR-AFON (Heol Tudur — dros Afon Tâf o'r Orsaf Ganolog.) Dyma'r unig un o'r llu bwytai Chinee sy'n haeddu nodyn arbennig. Mae'n bur wahanol ei safon ac yn cystadlu yn hawdd gyda'r goreu o Ffrainc a'r Eidal. (***)

TURINO (Heol Ddwyrain y Bontfaen). Trattoria Eidalaidd sy ddim yn ffasiynol a felly yn rhatach. (*)

TAFARN Y TŶ MAWR (Heol Ddwyrain y Bontfaen). (Llysfaen.) Ar safle wych ac yn haeddu ymweliad o'r herwydd, ond nid yw'r bwyd allan o'r cyffredin. (*)

WILHELM TELL (Sarn Fidfoel — "North Road" i'r Gogs). Bwyd Swisdir mewn awyrgylch gwych addas. Gweini araf ond yn bersonol, ac yn agor tan hanner nos. Prydau anarferol iawn a melysbrydau gwych. (***)

YR YSTAFELL GYMRAEG (Heol y Eglwys Newydd, Y Waun). Mae'r enw yn gamarweiniol — 'Gymreig' fyddai yn fwy geirwir. Ymdrech teilwng i weini bwydydd Cymreig gan Eidalwr — cocos, cawl, bara lawr, ond hefyd Stêc Tywysog Cymraeg a Llo Lloyd George. (*)

---

Dau enw a ddylai fod wedi cael lle ar bared y Babell Lên yn ddiamau ydyw Emyr Lewis a T. Arfon Williams. Mae'r ddau yn englynwyr. Mae gan Arfon 19 o englynion yn 'Y Flodeugerdd Englynion', a newydd gyhoeddi ei gyfrol gynta. Mae Emyr yn gydawdur un englyn yn 'Y Flodeugerdd' — 'Er cof am Ryan', ac ef hefyd oedd 'Prif Ddramodydd yr Urdd' 1976. Pam, o pam yr anghofiawyd y ddau uchod?

---

Mae golwg ryfedd ar babell y Gymdeithas Cerdd Dant ar y maes. Nid yw Edith Jones (yr ysgrifenyddes) yno — ac mae hynafwyr y Gymdeithas yn ceisio dwyn i gof os ddigwyddodd drychineb tebyg erioed o'r blaen.

Yn anffodus, mae Edith dan orchymyn y meddyg i orffwys, ac mae hi ddigon profiadol i wybod nad oes gorffwys ar faes yr Eisteddfod.

Anfonwn ein dymuniadau gorau ati.

---

# Saga oedfa'r pafiliwn

— **Nid am i HTV ddod i adwy yr erlyniad yn Achos Caerfyrddin y penderfynnodd Y Tabernacl agor y capel ar fore Sul, Awst 5.**

— **Nid oes sail o gwbwl mai dim ond allan o deyrngarwch i'w cynweinidog, (Y Parch. Gwyn Erfyl Jones) yr aeth aelodau Heol Hafren yn heidiau i'r Pafiliwn.**

— **Ni ddylanwadwyd Capel Heol y Crwys o gwbwl gan y wybodaeth mai y gweinidog, y Parch. W. Cynwil Williams yw Ymgynghorydd HTV ar Faterion Crefyddol.**

— **Nid Gweinidog Salem yw gohebydd crefyddol** *Y DINESYDD.*

**SAIN — RECORDIAU'R DYDD**

MYNEDIAD AM DDIM — "TORTH O FARA" Sain (1137M)

ALED LLOYD DAVIES — "HEN "HEN WIN" Sain (1117D)

BECA — "MYND I ARALL FYD" Sain (1116D)

**AR WERTH YM MHABELL SAIN**

**DEWCH HEIBIO!**

**sain**

PLAID CYMRU MERTHYR TUDFUL

Noson Fawreddog

**yn y Gwesty Baverstock**
**CINIO, DAWNS CABARET**

TRIBAN, Y DILIAU
ELINOR BENNETT (Telynores)
RHYDWEN WILLIAMS
ac eraill

Gwesteion:

Mr & Mrs Gwynfor Evans
Mr & Mrs Eurfyl ap Gwilym
Mr & Mrs Dafydd Wigley

**NOS WENER, 15fed MEDI, 1978**
**8.00 p.m. — 1.00 a.m.**

**Mynediad: £6.00**

*Tocynnau ar gael ym Mhabell y Ddraig Goch*

# CORNEL Y DYSGWYR

**Ychydig wedi canol dydd ddoe roedd hi fel ffair yn y Babell, a phob un hyd at y Pafiliwn Mawr yn gwybod hynny, mae'n sir. Dafydd Iwan oedd yno yn canu ac yn arwain canu'r dysgwyr gyda chymorth yr hen law yn y gweithgaredd hyn, John Albert.**

Ar ôl i'r canu dewi, er mawr ryddhad i rai o'r pebyll cyfagos, aethpwyd ymlaen i sefydlu cronfa Nant Gwrtheyrn. Rhoddodd Dafydd Iwan un o'r ymddiriedolwyr, amlinelliad clir o'r cynlluniau a disgrifiad o'r hyn sy eisoes wedi cael ei wneud. Yna, cafwyd araith angerddol gan un arall o'r ymddiriedolwyr, Dan Lynn James: soniodd yn frwdfrydig ac yn obeithiol am y cynllun sy ynglwm wrth yr Ymddiriedolaeth, sef trefnu ymgyrch genedlaethol Cymraeg i oedolion gyda'r bwriad o sefydlu dosbarth nos ymhob pentref yng Nghymru yn ystod y gaeaf.


Calondid mawr yn gynharach yn y bore oedd gweld dros drigain o ddysgwyr yn y Babell yn cael gwersi yn yr iaith gan diwtoriaid egniol iawn dan arweiniad Bryan James. Roedd y myfyrwyr brwdfrydig hyn wedi dod o bedwar ban y byd, o Lundain ac o Lerpwl, o'r Amerig ac o Iwerddon.

Cynhelir dwy drafodaeth bwysig yn y babell yn ystod yr wythnos, a bydd y gyntaf, ar y testun "Dyfodol yr Wlpan", y prynhawn yma am ddau o'r gloch. Gŵr profiadol iawn yn y maes fydd yn agor y drafodaeth heddiw, sef Gwilym Roberts, ac, fel y nodir yn ein rhaglen, fe fydd croeso i bawb gymryd rhan, hynny yw, os nad aiff Gwilym ymlaen yn rhy hir! Wrth roi cyfle fel hyn i diwtoriaid ac i fyfyrwyr gyfnewid syniadau ac awgrymiadau, mae'n siwr y gallwn wneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad Yr Wlpan ledled Cymru.

Gyda'r holl weithgareddau sy'n mynd ymlaen yn y Babell, a'r holl sylwadau pwysig sy'n cael eu gwneud gan wahanol siaradwyr, rydym yn synnu braidd na fyddai'r Babell wedi cael o leiaf ychydig bach o sylw gan y cyfryngau.

## MAFIA PLAID CYMRU

Peidiwch ar boen eich peth mawr — eich waled — â loetran yn hir ym mhabell Plaid Cymru. Fydd hi ddim yn Blaid Bach yn hir y ffordd y mae Glyn Owen yn perswadio pobl i lenwi Archebion Banc £1 yr wythnos. Newydd dalu ffortiwn yr oeddwn am ddeg ticed i'r "Top Rank" pan afaelodd y gŵr mwyn ynof a'r wraig a rhoi inni "gynnig na allem ei wrthod".



# Y TŴR


Y mae drama newydd Gwenlyn Parry yn archwilio'r berthynas rhwng gŵr a gwraig, o ddiniweidrwydd ieuenctid, drwy ddadrithiad ac anffyddlondeb canol oes, i frueder henaint ac angau. Rhyw le annelwig yw'r tŵr ei hun, y byddant yn byw eu bywydau o'i fewn gan fentro allan i'r byd mwy cyffredin nawr ac yn y man. Adlewyrchwyd gwahanol lefelau'r testun yn set ddiddorol Martin Morley a oedd yn fynegiant llythrennol a symbolaidd o dreigl amser yn y defnydd a wnaed ohoni.

Gwrthbwyswyd y gweithgareddau a y llwyfan gan ddarnau ar ffilm a bwysleisiai fywyd go iawn a bywyd ffantasi'r gŵr a'r wraig yn dra effeithiol yn rhan gyntaf y ddrama ond a aeth braidd yn ymwthiol yn yr actau eraill.

Heneiddiodd y mab (John Ogwen) a'r ferch (Maureen Rhys) drigain mlynedd mewn teirawr. Gorwedd gormes amser yn ysgafn ac yna'n fwy-fwy trwm ar eu bywydau, y llanc a'i gariad, y pâr priod ym mwrlwm byd cystadleuol y canol oed, yr henwr a'r henwraig yn hydrefu. A thu cefn i'r cwbl mae'r her iddynt i ddringo, dringo'r grisiau i ystafell uchaf y tŵr. A dim ond wedi diffodd y gannwyll fer y gwelwn fyrred ydoedd.

Rhaid dweud gair fan yma am gyfarwyddyd David Lyn a bwysleisiai mewn modd mor sensitif y newidiadau yn y berthynas rhwng y ddau gymeriad gan wneud hyn yn gynhyrchiad agoriadol cwbl deilwng o Steddfod Caerdydd, 1978.

* * * * * *




Mae'n amlwg fod gwasanaeth bysiau Caerdydd i Faes Pentwyn yn llwyddiant mawr; bu raid i un Eisteddfodwraig anffodus aros dros ddeugain munud brynhawn ddoe cyn cael lle ar un o'r bysiau gorlawn. Ie, llwyddiant mawr — ond dim cymaint o lwyddiant ym marn y Eisteddfodwyr gobeithiol yn disgwyl a disgwyl am gludiant i'r Maes.

# Recordiau newydd

Mae amrywiaeth o recordiau ar werth yr wythnos hon gyda chwmni recordiau Cambrian yn gwneud ymdrech i ail-gydio yn y farchnad. Er 'Steddfod Wrecsam rhyddhawyd pymtheg record hir yn y maes clasurol/canol-y-ffordd.

Ymddangosodd record i blant ym mis Chwefror eleni gyda Buddug Lloyd Roberts ac Elinor Bennet. Ymhlith y recordiau diweddar mae dwy gan Gôr Meibion Llanelli — un sy'n dwyn enw'r côr fel teitl a "Hoff Emynau Cymreig". Recordiau gan ferched yw'r mwyafrif, serch hynnyl, gyda dwy o eiddo Beti Mary Owen "Alawon Gwerin Cymraeg" a "Caneuon a Garwn". Braf gweld Margaret Williams yn recordio eto a'i theitl "Hedd yn y Dyffryn". Bu farw Telynores Dwyryd ym mis Chwefror ac mae mynd da wedi bod ar ei record "Dawn Eleanor Dwyryd". Record newydd Elizabeth Vaughan, y gantores enwog o Lanfyllin, yw "Songs for you".

Record arall a gafodd groeso mawr oedd "Mi Geisiaf Eto Ganu Cân" — Dai Jones, Llanilar. Ar yr ochr ysgafn wedyn rhyddhawyd ail record y grŵp poblogaidd o Sir Benfro, "Bois y Felin".

Deg record newydd ar werth gan Gwmni Cambrian ar y maes felly. Yfory, Cwmni Recordiau Sain fydd dan sylw.

# Llafur a'r iaith

Clywyd geiriau pendant o blaid bywyd Cymreig Caerdydd gan Mr Phillip Rosser, Ysgrifennydd Rhanbarth De Cymru o Undeb y Gweithwyr Cyffredinol a Threfol, ac aelod o Bwyllgor Gwaith y Blaid Lafur, wrth annerch cyfarfod cyhoeddus Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ddoe. Mewn trafodaeth ar berthynas y Mudiad Llafur a'r iaith Gymraeg, cyfeiriodd at yr arwyddion optimistaidd a welodd yn y brifddinas, rhagor ei ardal enedigol Pontrhydyfen, lle'r oedd yr iaith yn colli gafael a'r gymdeithas glos yn gyflym ddiflannu.

Aeth ymlaen i ddadansoddi natur ddeublyg y Mudiad Llafur. Brawdoliaeth dyn a thraddodiad gobeithiol y dosbarth gweithiol fu gwraidd ei delfryd ond yr oedd hyn, meddai, yn cael ei anwybyddu ar draul y frwydr dros well safonau byw a oedd yn creu yn y pen draw amgylchfyd digymeriad a diwraidd yn hytrach na chymdeithas. Ychwanegiad oedd diwylliant yn ôl y meddylfryd hwn.

Diffyg y Mudiad Llafur oedd gwybodaeth am hanes a diwylliant y gorffennol oedd yn cynnwys y gormes a fu yn erbyn y werin. Sialens y Mudiad Llafur felly oedd cynorthwyo ym mrywdr yr iaith ac o osgoi y cyfle a'r cyfrifoldeb hwn, byddai cyhuddiad y dyfodol yn llym oherwydd iddynt fod yn euog o ddilyn myth fod y genedl yn elyniaethus tuag at y Gymraeg.

# CANU COCH

Ar werth fore Iau bydd y rhacsyn bach budur hwn a gyhoeddwyd gan Twm Huws o Benyceunant ac a argraffwyd gan Roli Bach ei frawd. Penillion talcen slip ydynt, rhai yn goch iawn ac eraill yn hynod llipa (a pheidiwch â 'nghamddeall i!'). Mae'r llyfryn bychan, bargen am 20c, os ydych chi'n hoff o wastraffu'ch pres yn sawru'n bendant o'r wlad — Dyffryn Aeron, yn ôl ein connoiseur bro. Gobeithiwn y bydd mudiad Adfer yn eu Steddfod answyddogol yn gwadu unrhyw gysylltiad â'r cyhoeddiad ac yn condemnio'r afledneisrwydd hwn — cynnyrch bro neu beidio — yn enw gweddusrwydd.

AM GYRSIAU ADDYSG OEDOLION YNG

NGHANOLFAN OEDOLION YR EGLWYS NEWYDD

Anfonwch amlen wedi'r chyfeirio am raglen i Mr Colin Payne, Pennaeth y Dalgylch, Ysgol Eglwys Newydd (Isa), Glanynant, Caerdydd, neu ffoniwch 614392 neu 755034

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.

antiques UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:

**METELAU LLANDOW**

Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!
RHIF FFÔN:
LLANILLTUD FAWR
2756

POSTERI CERDDI

**Cynnig arbennig 3 am bris 2 cludiad am ddim**

Fel arfer £1.00 yr un yw pris posteri lliw 20″ × 30″. Am gyfnod byr yn unig rydym yn gwerthu drwy'r post 3 am £2.00. 3 am bris 2.

Ysgrifennwch i ddweud pa 3 poster yr hoffech gael ac anfonwch £2.00 (yn daladwy i ORIEL) at: ORIEL, Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd CF1 4ED

| | |
|---|---|
| A1 | Yr Wylan - Dafydd ap Gwilym |
| A2 | The Seagull - Glyn Jones |
| A3 | A Child's Christmas in Wales - Dylan Thomas |
| A4 | Dysgub y Dail - Crwys |
| A5 | Fern Hill - Dylan Thomas |
| A6 | Cynddylan on a Tractor - R S Thomas |
| A7 | Hon - T H Parry-Williams |
| A8 | Cofio - Waldo Williams |
| A9 | Eifionydd - R Williams Parry |
| A10 | Maggie Fach - Idris Davies |
| A11 | Carol y Crefftwr - Iorwerth C Peate |
| A12 | I Wallt Merch - Dafydd ab Edmwnd |
| A13 | Do you Remember 1926? - Idris Davies |
| A14 | Cara Wallia Derelicta - David Jones |
| A15 | Machlud - Alan Llwyd |
| A16 | Eisteddfod 1176-1976 |
| A17 | Aberdaron - Cynan |
| A18 | Y Fantell Fraith - I D Hooson |
| A19 | Eryr Pengwern |

**Special Offer 3 for the price of 2 post free**

Normally these full colour 20″ × 30″ posters retail at £1.00 each. For a limited period only we can offer them for sale, by post only, at 3 for £2.00. 3 for the price of 2.

Write, stating your choice of 3 posters and enclosing £2.00 (payable to ORIEL) to: ORIEL, Welsh Arts Council, 53 Charles Street, Cardiff CF1 4ED

POEM POSTERS

Croeso i Gastell Caerdydd

An invitation to dine at Cardiff Castle —



Estynnwn wahoddiad i chi i ymuno gyda ni mewn noson o ddifyrrwch a cherddoriaeth draddodiadol Gymraeg.

Venez passer une bonne soirée dans l'ambiance médiévale de nos anciennes traditions galloises de chants, de musique et de gaieté.

Komt u eens een avond met traditionele gastvrijheid van Wales bijwonen Een avond van lekker eten en gezellige muziek in een romantische omgeving.

You are invited to share in an evening of Welsh hospitality - a delicious traditional feast accompanied by the lovely melodies of Wales and the ingenious compositions of the Tudor Court sung by the enchanting ladies of Morgannwg accompanied by harp and minstrels.

For bookings: Telephone CARDIFF 372737

# MOUNT SORREL

**HEOL PORTHCERI**
**Y BARRI, DE MORGANNWG ☎740069**
****A.A.     **R.A.C.***

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat)
Teledu Lliw, Radio a Ffôn ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU PRIODASAU CINIO A DAWNS

DEWCH I'R BARRI
unrhyw amser
Hawdd cyrraedd yno o faes yr Eisteddfod
3 milltir o Faesawyr y Rhŵs
8 milltir o Gaerdydd
Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus



**Taith Gymreig**
**Côr Gwladwriaeth**
**Hwngari**
(Côr Kodaly o Debrecen)

6ed i'r 25ain Tachwedd
1978

Cwmbran, Aberdâr, Caerdydd, Abertawe, Ystrad Mynach,
Porthcawl, Castell Nedd, Treorci,
Caerfyrddin, Aberystwyth, Crymych, Llwchwr,
Queensferry, Caernarfon, Porthmadog, Sir Fôn,
Conwy, Rhyl.

*Manylion gan:*
*Gyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa,*
*Caerdydd CF1 3NX. Ffôn: 394711*

# Cymdeithas Adeiladu Nationwide
# Dyma'r Gymdeithas i bara am oes

## Bwrdd Rhanbarthol Cymru

Cadeirydd: Syr Harry Llewellyn CBE
Ardalydd Môn DL FSA Hon FRIBA FR HistS;
Syr Hugo Boothby Bt DL YH
Alex Gordon CBE PPRIBA LLD; T Mervyn Jones CBE MA

## Rheolwr Dros Gymru

Huw Lloyd Williams


## Swyddfeydd

Caerdydd
Casnewydd
Cwmbran
Penarth
Y Barri
Penybont Ar Ogwr
Pontypridd
Abertawe
Castell Nedd
Llanelli
Caerfyrddin
Hwlffordd
Aberystwyth
Bae Colwyn
Bangor
Wrecsam
Y Rhyl
Caerffili
Aberdar
Aberdaugleddau

**Nationwide**

## Y Gymdeithas Adeiladu am oes

Cronfeydd dros £3,000m wedi ei awdurdodi fel buddsoddiad Ymddiriedaethol
Aelod o Gymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu



# CYMRY AR WASGAR

## gan Dafydd Elis Thomas, A.S.

Cyfres yw hon ynglŷn â Chymry sydd naill ai wedi dewis, neu wedi gorfod mynd dros Glawdd Offa i fyw neu i weithio, eu hymateb hwy i fyw yn Lloegr, a'r modd y mae hynny, os o gwbl, wedi newid eu hagwedd at Gymru. Heddiw, Dafydd Elis Thomas, A.S., Meirion.

**Y bore wedyn roedd y Saab yn gyrru at gatiau mynedfa aelodau i'r Senedd. Dyma fi'n troi handlen y ffenestr. "Good morning," medde fi a bradychu mod i'n methu dygymod â'r sefyllfa. "I'm Thomas, Meirionnydd, do you believe me?"**

**"Yes," medde'r plismon, gan edrych ar Rolant yng ngwsg ar y set gefn. "We've been expecting you."**

Profiad od oedd ar ôl parcio'r car gerdded trwy'r crowd a chael plismyn yn dweud, "Good morning Mr Thomas." Fe feddyliais i'n syth bod rhywun yn Scotland Yard wedi bod yn mynd trwy'r ffeiliau oedd gennyn nhw arna i ar ôl CND Ieuenctid a Phwyllgor Cant Cymru, swyddfeydd post Dolgellau, Machynlleth a Llambed, a phrotest agor Tryweryn. Y peth cyntaf mae aelod newydd yn dod o hyd iddo fo wrth gwrs yw'r ystafell hongian dillad sydd trwy fynedfa'r aelodau. Mi ofynnais i beth oedd y ruban pinc ar bob bachyn. "That's for hanging your shorts, sir." Yr ail broblem wedi hongian cot oedd cael hyd i le chwech, ond fûm i ddim yn hir yn sylweddoli mai dyna oedd y tu ôl i'r rhan fwyaf o'r drysau oedd wedi eu marcio "Members Only".

Doeddwn i erioed wedi bod yn siambr Tŷ'r Cyffredin hyd yn oed ar drip ysgol nes i mi orfod mynd i mewn yno'r diwrnod hwnnw, a'r cwestiwn cyntaf oedd ble ddylen ni'n dau eistedd. Roeddem ni wedi cael cyfarfod hefo Gwynfor yn swyddfa Dolgellau dros y Sul, cyfarfod oedd yn ddigon pwysig i gyrraedd y World at One oherwydd sefyllfa leiafriol y llywodraeth. Ond er y bydden ni'n debyg o gefnogi mwy o bolisiau'r llywodraeth leiafrif nag y bydden ni o'u gwrthwynebu nhw, allen ni ddim eistedd ar feinciau'r llywodraeth. Ond ym mhle ar feinciau'r wrthblaid? A dyma ofyn i geidwad hynaf y porth, sydd wedi ymddeol bellach. Ceidwaid y drysau a'r negeseuwyr ydi'r dynion sydd wedi'u gwisgo yn fwyaf urddasol yn y Senedd. Bob tro y bydda i'n cael ymwelwyr mi fyddan nhw'n gofyn, "A phwy yw'r bobl yna?," gan fod y ceidwaid wedi'u gwisgo fel y byddai'r aelodau ar droad y ganrif mewn siwt bol deryn, tei bô gwyn a chadwen aur am wddw pob un.

"Well, sir." A peth od i mi oedd cael gŵr pump a thriugain yn dweud "syr" wrth lencyn saith ar hugain. "Do you see that bench there, the third along the gangway. Those are the rebel benches. I think you should sit there." Ac yno, tu ôl i'r Rhyddfrydwyr, o flaen Gwyddelod gogledd Iwerddon ac ar yr un faine — os nad yn yr un lobi bleidleisio bob amser — â'r SNP yr eisteddwn ni, ond fel y gŵyr carwyr democratiaeth ac astudwyr senedd fleraf a mwyaf aneffeithiol y byd mae yna lai o seddau yn Nhy'r Cyffredin nag sydd o aelodau, gannoedd yn llai, ac fel y gallech chi dybio doedd rhai o ddeiliaid arferol y drydedd faine islaw ddim yn rhy groesawgar. Yr ail bnawn fe ddaeth un wraig Geidwadol, sydd bellach yn Senedd Ewrop, ac eistedd yn llythrennol ar lin Dafydd Wigley. Dyna finne'n naturiol yn ymateb, "Be ddiawl mae'r fuwch yna'n ei feddwl mai'n wneud?" "Don't you call me a silly cow," dywedodd. Doeddwn i ddim i wybod fod aelod seneddol Ceidwadol Lancaster yn medru deall Cymraeg.

Chafodd Gwynfor ar ei ymweliad cyntaf â'r senedd ddim cymryd y llw ffyddlondeb i'r frenhines y mae'n rhaid i bob aelod ei gymryd yn Gymraeg er iddo wneud cais ffurfiol a chwrtais i'r llefarydd bryd hynny, ond gyda hyblygrwydd nodedig y drefn Seisnig caniatawyd hynny i ni er ein bod ni'n gorfod ei gymryd yn Saesneg yn gyntaf. Mae'n amlwg felly fod y rhai ohonon ni o aelodau Cymru ddewisiodd gymryd y llw yn Gymraeg yn y senedd honno yn ddwbl ffyddlonach i'w mawrhydi, "ei disgynyddion a'i holynwyr yn ôl y ddedf" na'r rhelyw o aelodau eraill.

Profiad parlysol o ofnus oedd gofyn y cwestiwn llafar cyntaf yn y senedd newydd gan fod Cymru wedi digwydd dod ar ben y rhestr y tro cyntaf, a minnau'n rhy frwdfrydig fel trwy gydol y sesiwn gyntaf honno, i ofyn cwestiynnau. £16 y tro oeddwn i'n gostio i'r wlad meddai John Morris ac fe wnaeth ddatganiad i'r wasg i resynu hynny. Yn naturiol, fe gam-ddeallwyd y peth gan rai o fy nghymdogion mwy coeglyd yn Nolgellau. Roeddwn i'n croesi'r sgwâr un prynhawn dydd Gwener pan gyfarchodd un o'r amaethwyr fi a dweud, "Dow, Mr Thomas, 'dech chi wedi gneud yn dda'n do yn ennill deuddeg mil o bunna?" Dyma fi'n gwadu hynny ond roedd rhywun wedi sicrha'r brawd mod i'n cael £16 am bob cwestiwn roeddwn i wedi'i ofyn, felly mod i wedi costio deuddeg mil o bunnau i'r wlad. Rhyw fath o 'Double your Money' seneddol.

CYNHELIR CYFARFOD o'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear, Ddydd Iau am 1 o'r gloch ym Mhabell y Cymdeithasau. Bydd Dafydd Elis Thomas A.S. yn siarad.

## Colofn Hysbysebion Personol

GARETH AP SION — Tà se go holen — Barra Tobin

FFRED FFRANSIS — Ti'n cofio'r tun "Baked Beans" nhw gest ti fenthyg yn Bath St.? — Dafydd Mei.

ANON — Dewch 'mlan bois mae'r rent yn diw — Penniman.

ELIS — Paid "exhaustio" dy hun yn troi lan — Huws.

CRIDDLE — Wela i di yn Stafell 29 — REES.

CHRIS — Penblwydd Llawen! Jenni.

YN EISIAU — Gwraig i lanhau'r tŷ, 3 bore'r wythnos. Ffoniwch Caerdydd 755184.

AR GOLL: Goronwy Jones. Yr hogia yn y Rhymni yn poeni.

POBL SYDD AM NEWID TOCYNNAU i.e. un drama am gyngherdd, gwahanol seddau yn y pafiliwn etc., DEFNYDDIWCH Y GOLOFN YMA.

LLONGYFARCHIADAU — Scynthia a Trefor ar eich priodas yn ddiweddar. GOL.




# TUA'R MÔR

Mae Heol Bute yn heol syth iawn yn arwain o bont yr Hayes i lawr at y cychod bron — y rheiny sydd wrth angor ger dociau Caerdydd Gellir dal bws rhif 9, ger Arcêd Wyndham, ar waelod Heol y Santes Fair, ac fe aiff a ni heibio i'r farchnad awyr agored a nifer o glybiau nos a thafarndai y Glastonbury a'r Custom House. Roedd morwyr o bell yn adnabod y Glastonbury fel y Tŷ Gwyn, ond bod y bragwyr yn ddiweddar wedi ei beintio'n frown!

Efallai y medrwch weld tipyn o'r rhimyn glas sydd yn rhedeg yn gyfochrog â Heol Bute y tu draw i'r adeiladai ar y dde; dyna lle'r oedd Camlas Morgannwg yn arfer rhedeg, a nawr mae wedi ei llanw a'i gwneud yn faes glas a darnau ohono yn barc cerdded a chwarae.

Gwell disgyn oddi ar y bws wrth orsaf reilffordd Bute Road.

Croeser Heol Bute oddi wrth y bws a cherdded ar hyd Heol Bute Orllewinol (West Bute). Gyferbyn â ni mae Adeiladai'r Cymric a godwyd yn 1911. Cyfnewidfa Deleffon y Swyddfa Bost oedd yma ond yn 1939 daeth swyddfeydd Rheilffordd y Great Western i'w defnyddio, ond



swyddfeydd rheolwr Dociau Caerdydd ydynt heddiw. O gornel Adeiladau'r Cymric gwelwch adeilad crand Banc y National Westminster (1924) gyferbyn yn Heol Bute Orllewinol. Mae iddo golofnau Ionig ac uwchben y drws mae tafol, â phen dynol ar un o'r cloriannau.

Roedd yr ardal hon yn brif ran fusnes dinas Caerdydd ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Cyrhaeddwyd pegwn y ffyniant tua 1913 pan allforiwyd dros ddeng miliwn tunnell o lo o Gaerdydd. Wrth droi i'r dde gyferbyn a Banc y National Westminster, rydym wedi cyrraedd Sgwâr Mount Stuart ac fe welwn ragor o waith cerfio ar garreg yn Adeiladai'r Cambrian a Thŷ Beynon.

Yna troër yn gyntaf i'r chwith ac yna i'r dde i weld wyneb yr hen Gyfnewidfa Lô (1886). Bu llongwyr a broewyr yn masnachu yma. Rhwng 1975 a 1976 cafodd y cyhoedd gyfle unwaith eto i weld harddwch yr adeilad y tu-mewn pan gynhaliwyd cyfres o gyngherddau gan Gerddorfa Ffilarmonia Cymru yn Neuadd eang y Gyfnewidfa. Mae plac glas ar ben drws y Gyfnewidfa yn dweud am achlysur derbyn Capten Scott a'i swyddogion yma ar Orffennaf 13, 1913, cyn iddynt hwylio yn y *Terra Nova* tua Phegwn y De.

Allan â ni o Sgwâr Mount Stuart, i'r chwith, a phasio Tŷ Mount Stuart, a dod allan bron yng ngwaelod Heol Iago (James Street), ac wrth droi iddi — i'r chwith, fe awn heibio Tafarn y *Ship and Pilot*, a gweld arwyddion yn ein cyfeirio i'r Amgueddfa Diwydiant a Môr. Mae angor anferth o flaen yr Amgueddfa; mae'r amgueddfa mewn adeilad newydd ar safle hanesyddol — ar lan basn y Doc Bute cyntaf.

Ar y trwyn tir gyferbyn a'r Amgueddfa mae adeilad urddasol o briddfeini coch, a chloc mawr ar y tŵr. Dyma ble'r oedd swyddfeydd hen Gwmni Dociau Bute, a oedd yn rhannol gyfrifol am dŵf Caerdydd a'r masnachu llongau. Ar ochr orllewinol yr adeilad mae arfbais a gwaith cerfio o long hwylio ac injin ager, a'r geiriau, "Wrth Ddŵr a Thân". Dyma arfbais hen Gwmni Rheilffordd Caerdydd. Mae craeniau a pheiriannau'r oes heddiw yn brysur yn y porthladd heddiw.

Gellir dal y bws rhif 9 o flaen yr Amgueddfa, neu yn nes i fyny yn heol Iago, a dychwelyd i ganol y ddinas drwy Grangetown.

DAFYDD GWYLON

---

## Dim arwyddion Saesneg

**Agorodd Pabell British Rail bore ddoe gydag ymddiheuriad i'r cyhoedd am y difrod oedd yno. Ymwelodd Rhodri Williams, Cadeirydd y Gymdeithas, a'r babell gan ofyn i'r swyddogion a oeddynt yn bwriadu Cymreigio eu harddangosfa.**

Gan na chafodd ateb, aeth at Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, i ofyn iddo i orfodi B.R. oddi ar y cae. Dywedodd Mr Jenkins nad oedd wedi gweld yr arddangosfa, ond y buasai'n ymweld a hi ac os gwelai fod yr arddangosfa'n torri rheol y Steddfod, yna byddai'n rhaid i B.R. naill ai newid yr arwyddion neu adael y maes cyn diwedd y dydd.

Rhyfedd oedd gweld arwyddion Saesneg yn diflannu fel gwlith o flaen yr haul ar y maes wedi hynny. Un neu ddau o'r banciau'n prysur guddio eu 'hours of opening' dan blastar o Gymraeg, y 'National Bus Company'n diflannu, ac felly hefyd y 'Chicken, Sausage, Fish & Chips'. Esiampl i bawb ar y maes oedd Arwydd fawr uniaith Gymraeg Bwrdd Twristiaeth Ffrainc (neu 'Twriftiaeth' fel yr oedd cyn ei gywiro!).

## TECHNO '78
## Yr Arddangosfa Wyddoniaeth

Llawer yw'r rhai sy'n sefyllian o flaen arddangosfa wyddoniaeth y 'Steddfod yn petruso cyn mentro i'w chrombil. Ond, wedi mentro, caent eu synnu ei fod yn bosibl mwynhau a gwerthfawrogi datblygiadau diweddaraf yr oes dechnolegol.

Ymysg llu o atyniadau lliwgar a chyffrous mae cyfle gweld chwythwr-gwydr proffesiynnol wrth ei waith — siarad yn uniongyrchol a chyfrifiadur modern — profi system CEEFAX y Swyddfa Bost — a herio dylanwad y microprosesyddion bondigrybwyll!

Ac ar ben y cwbwl gellwch weld Alcomedr newydd Dr. Tom Jones



o Gaerdydd yn mesur yn gywirach nag erioed lefel yr alcohol yn y gwaed, ac sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan yr heddlu. Ysywaeth mae rheolau'r Eisteddfod yn gwahardd profion o'r teclyn yn y babell!

Dyfarnwyd Anrhydedd Technoleg Genedlaethol Cymru i Dr. H. Jones am ei ddyfais ac, wrth gyflwyno'r tlws iddo yn y Babell Wyddonol, dywedodd Syr Melfyn Rosser, un o'r beirniaid, fod gwaith arloesol Caerdydd wrth sefydlu'r gystadleuaeth hon a darparu arddangosfa mor ddiddorol yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol a'i fod yn galonogol i weld yr Eisteddfod yn rhoi lle dyledus i wyddoniaeth o'r diwedd.

# Y Gerddorfa'n talu Teyrnged i B.J.

Ar ddechrau'r cyngerdd heno, talwyd teyrnged gan ferch ifanc o'r Gerddorfa Ieuenctid i un o gyfeillion clos y gerddorfa, gŵr a'i gweinyddodd am bymtheng mlynedd. Bu farw B.J. Griffiths fis Medi diwethaf ac addas mai yn y Brifwyl yng Nghaerdydd y talwyd teyrnged iddo.

Roedd B.J. yn un o gymeriadau mwyaf hoffus Caerdydd ac yn amlwg yn ffrind i gannoedd o offerynnwyr ifanc Cymru. Chwaraeodd y Gerddorfa *Fanfare* er cof amdano a gyfansoddwyd gan Gareth Wood, cyn-aelod o'r Gerddorfa.

Yn y ddau ddarn cyntaf, sef Agorawd *Der Fliegende Hollander* Wagner a *L'Apprenti Sorcier* Dukas, dangosodd y Gerddorfa hyd a lled eu meistrolaeth. Syndod i mi bod y safon uchel a gafwyd yn y chwarae — yn ansawdd tôn, yn nisgyblaeth y gerddorfa yn gallu ymateb mor wych i'r arweinydd, Arthur Davison — yn bosibl o fewn y deng niwrnod iddyn nhw ymgynull â'i gilydd. Teyrnged yw hyn i frwdfrydedd a dycnwch y gerddorfa a'u harweinydd.

Un o unawdwyr y noson oedd Maria Williams o'r Barri, a rhoddodd i ni ddwy aria wahanol iawn i'w gilydd. Yn y rhain, dangosodd gryn feistrolaeth a hyder mewn cantores ifanc ar ddechrau gyrfa.

*Dawnsfeydd Celtig* William Mathias a glodd yr hanner cyntaf, darn a gomisiynwyd gan yr Urdd a Chyngor y Celfyddydau. Yn y fan yma, rhoir cyfle i ni glywed pob adran o'r gerddorfa.

Gan fod y *Dinesydd Dyddiol* ar fin mynd i'w wely, rhaid cloi'r adroddiad hwn heb son am yr ail ran ond os bydd o rywbeth tebyg i'r cyntaf, bydd y noson hon wedi bod yn un o fwynhad digymysg.

SHÂN EMLYN

# Y STIWDIO GERDD

Bu'n fore llwyddiannus eto yn y Stiwdio Gerdd gyda chyfarfod diddorol ar y Tonic Solffa yng nghwmni John Hadyn Davies. Dyma'r cyntaf o dri chyfarfod a'r tro hon 'roedd John Davies yn son am hanes a datblygiad y solffa gan bwysleisio yn arbennig gyfraniad John Curwen. Yn yr ail gyfarfod am dri ar Ddydd Gwener bydd yn son am gyfraniad Kodaly yn Hwngari. Daeth nifer fawr o blant i'r sesiwn Karl Orff a mwynhau'n fawr. Beth am ddod am ddau yfory blant? Does dim angen y gallu i chwarae offeryn, dim ond brwdfrydedd.

Mae un newid yn y rhaglen heddiw. Ni fydd darlith ar recorders gan fod y darlithydd David Mogford wedi cael damwain yn ei gar. Yr ydym, fodd bynnag, wedi sierhau gwasanaeth grŵp recorders Ysgol Ifor Bach, Senghennydd, ar Ddydd *Iau* am unarddeg, a sicrhawn chwi y cewch wledd os dowch! Heddiw hefyd mae un o brif gyfarfodydd yr wythnos — rhaglen deyrnged i Grace Williams dan ofal Howard Rees. Mae arddangosfa o'i gwaith yn y Stiwdio a bydd nifer o'i chydnabod yn y byd cerddorol yn bresennol. Dyma gyfarfod na ddylid ei golli.

Cofiwch bod tocynnau'r *cyngherddau siambr* (a gynhelir yng Nghyncoed) ar werth yn y Stiwdio bob dydd am un o'r gloch. Manylion yn Rhaglen y Dydd ac yn y Stiwdio. Galwch heibio!

Hywel Griffiths

[illegible]

# o Arabia

Gweld merch fach ddiddorol iawn yn Y Ddawns Flodau ddoe — ei thad yn Arab, ei mam yn ddi-Gymraeg, a hithau'n siarad Cymraeg rhugl, ar ôl dysgu'r iaith yn yr ysgol yng Nghaerdydd. Roedd ei thad, sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn Saudi Arabia wedi hedfan draw yn unswydd i gymryd ffilm o'i ferch fach yn dawnsio.

# Derec yn gwylltio

Mewn cynhadledd i'r wasg pnawn ddoe dywedodd Dr. Derec Llwyd Morgan, wrth ateb cwestiwn ynglŷn â thrafferthion dydd Llun mai ei farn bersonol ef oedd bod y Rheilffyrdd Prydeinig yn gofyn am drwbl. Credai fod cadw'r Rheol Gymraeg yn hanfodol ac yr oeddynt hwy wedi torri'r rheol honno. Cyfaddefodd hefyd ei fod "wedi gwylltio" ynglŷn â'r beirniad a siaradodd yn Saesneg o lwyfan yr Ŵyl ddoe, ond ychwanegodd na welai ddim bai ar y beirniad; ar y drefn yr oedd y bai.

# Daniel yn y cnawd

**Does yna ond un Rhydwen.** Creadur ar ben ei hun oedd **Daniel Owen hefyd. Dowch â nhw at eu gilydd, a dyna greadigaeth newydd — neu, os mynnwch chwi, atgyfodiad o'r cyfuniad o eiriau a pherfformiwr o'r math a fu'n swyno ein hen deidiau pan aeth yr hen Ddaniel ei hun o amgylch Cymru i ddarllen darnau o'i nofelau.**

**'Chywais i erioed mo Daniel Owen —** chlywodd **neb arall sy'n fyw heddiw mohono ychwaith.** Ond prin iawn y gallai'r meistr ei **hunan fod wedi gwella ar yr hyn a gyflwynir bob nos yr wythnos yma ar y llwyfan yn hen gapel Pembroke Terrace yng Nghaerdydd.**

**Llwyfan moel a pheledr neu** ddau o oleuni'n taro arno. A daw **Rhydwen ymlaen wedi ei wisgo mewn siwt oedd yn y ffasiwn pan godwyd y capel gan mlynedd yn ôl. Ond nid Rhydwen mohonno'n hir. Roeddwn ar ein hunion yng nghwmni'r llencyn Rhys Lewis** a'i fam, yr athro ysgol goes glec, saint y seiat, Thomas Bartle a **Barbara, Wil Bryan ac eraill. A hyn yn gwbwl ddiymdrech: dim ond ymroddiad a dawn aruthrol un dyn — un cawr o actor — un llew o gymeriad a ddaeth o draddodiad na wybu am arwynebedd slic y weiarles a'r teledu.**

**Ar ôl miri a dwndwr y miloedd ar y maes, os am foddhad cyflawn gyda'r nos o weld y crefftwr wrth ei waith, ewch i weld Rhydwen. Mae rhai wedi ei** gymharu â brodor arall o Sir y **Fflint a fu'n darogan Dickens yn** y Saesneg. I mi dydy Emlyn **Williams, er maint ei ddawn, ddim ynddi hi. Actor ydi o. Mae Rhydwen yn byw ei gymeriadau. Prin y gwel Cymru ei debyg eto.**

# FFRANC IW!




Gweler stori tud 19

NOS WENER YR EISTEDDFOD
TOP RANK CAERDYDD: AWST 11
8p.m.–2a.m. (Bar Hwyr)

EDWARD H. DAFIS
DAFYDD IWAN
RICHARD (SOSBAN) REES –
DISCO

Tocynnau £1.50 (£1.25 am archebion o 10 neu fwy)
PEIDIWCH OEDI!
Cysylltwch â: Paul Morgan, Plaid Cymru, Gogledd Caerdydd, 50 Springwood, Llanedeyrn, Caerdydd.
Ffôn: 750211

Y Cumro—Y papur i Gymru

*O'r Cimro ddoe...*

*Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, Caerdydd.*